

PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
14 HYDREF 2020

Cofnodion cyfarfod o bell Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mercher, 14 Hydref 2020.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Neville Phillips (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Bob Connah, Jean Davies, Rob Davies, David Evans, David Healey, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Ian Smith, David Williams, ac Arnold Woolley

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Bernie Attridge:

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Patrick Heesom

HEFYD YN BRESENNOL: Prif Swyddog (Llywodraethu); Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

Cyn dechrau'r cyfarfod, llongyfarchodd y Cadeirydd y Cynghorydd David Evans ar ennill OBE yn Rhestr Anrhydeddau Pen-Blwydd y Frenhines 2020 a gyhoeddwyd ar 10 Hydref.

01. PENODI CADEIRYDD

Bu i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd atgoffa'r Pwyllgor bod y Cyngor, yn y Cyfarfod Blynyddol, wedi penderfynu mai grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol ddylai enwebu Cadeirydd y Pwyllgor. Roedd y grŵp wedi enwebu'r Cynghorydd Neville Phillips.

PENDERFYNWYD:

Cadarnhau'r Cynghorydd Neville Phillips fel Cadeirydd y Pwyllgor am flwyddyn y cyngor.

(O'r pwynt hwn ymlaen, cadeiriodd y Cynghorydd Phillips weddill y cyfarfod)

02. PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd. Cynigodd y Cynghorydd Mike Peers y Cynghorydd Arnold Woolley fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Rob Davies.

Cynigodd y Cynghorydd Chris Bithell y Cynghorydd Michelle Perfect fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ted Palmer.

Ar ôl cynnal pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Michelle Perfect yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

Penodi'r Cynghorydd Michelle Perfect yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am flwyddyn y cyngor.

03. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd ynglŷn ag eitem 6 – Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW), dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) mai dim ond ar gyfer materion yn ymwneud â thaliadau cydnabyddiaeth yr oedd gofyn i Aelodau ddatgan cysylltiad personol.

04. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2020.

Cynigwyd y cofnodion gan y Cynghorydd Chris Bithell ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Ted Palmer.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

05. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW) 2020/21

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) ar gyfer 2021/22, a oedd yn pennu cyfraddau taliadau i'w gwneud i aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig Awdurdodau Lleol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Dywedodd bod IRPW wedi anfon Adroddiad Blynyddol drafft at Gyngorau Sir ar 28 Medi, yn gofyn i sylwadau gael eu gwneud erbyn 23 Tachwedd 2020. Roedd gofyn i IRPW gymryd i ystyriaeth sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â'r adroddiad drafft cyn cyhoeddi fersiwn derfynol o'r adroddiad ym mis Chwefror 2021.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi gwneud 48 o Benderfyniadau ar gyfer 2021/22, ac roedd 24 ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i Gyngor Sir y Fflint. Rhestrir penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2021/22 yn Atodiad 1 yr adroddiad. Dywedodd bod IRPW wedi cynnig bod cyflog sylfaenol aelodau etholedig y prif gyngorau yn 2021/22 yn £14,368 ac y byddai'n dod i rym ar 1 Ebrill 2021. Roedd hwn yn gynnydd o £150 ar lefel 2020/21. Roedd cynnydd o 1.06% yn cael ei gynnig hefyd ar gyfer cyflogau uwch a dinesig. Cynigodd y Panel hefyd gynnydd o £12 i gyfradd ddyddiol aelodau cyfetholedig cyffredin Pwyllgorau i £210. Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd at y prif benderfyniadau yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Ted Palmer, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd mai mater i'r unigolion oedd penderfynu a oeddent am dderbyn neu wrthod y taliad cyfan neu ran o'r taliad yr oedd ganddynt hawl iddo.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Bithell at Adran 15, paragraff 15.3 yn adroddiad IRPW. Ymatebodd y Prif Swyddog i'r cwestiwn ynglŷn â chyflogau Penaethiaid Gwasanaethau a Delir a Phrif Swyddogion y prif gynghorau a thynnodd sylw at y wybodaeth ym mharagraff 15.1.

Cododd y Cynghorydd Bithell gwestiwn arall yn ymwneud â chofnodi presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd. Dywedodd, er bod presenoldeb yn cael ei gofnodi yn y mwyafrif o gyfarfodydd y Cyngor, roedd nifer sylweddol o gyfarfodydd ychwanegol yr oedd yr Aelodau yn eu mynychu fel rhan o'u dyletswyddau, nad oeddent yn cael eu cofnodi, a chyfeiriodd at gyfarfodydd is-bwyllgorau, Paneli, sefydliadau a chyrff allanol fel enghreifftiau. Pwysleisiodd pa mor bwysig yw codi ymwybyddiaeth a sicrhau'r cyhoedd bod Aelodau yn cyflawni eu dyletswyddau. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd bod yr Awdurdod yn cofnodi aelodaeth a lefelau presenoldeb aelodau etholedig mewn pwyllgorau penodol yn yr Awdurdod a hefyd ei fod yn cofnodi presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill ac roedd y wybodaeth hon ar gael ar wefan yr Awdurdod. Dywedodd y gallai Aelodau gyfeirio at yr holl gyfarfodydd y maent yn eu mynychu yn eu Hadroddiadau Blynyddol. Dywedodd y Prif Swyddog bod rhestr statudol o'r cyfarfodydd y gofynnir i'r Awdurdod gofnodi presenoldeb Aelodau ynddynt a chadarnhaodd bod yr Awdurdod hefyd yn cofnodi pa Aelodau sy'n aelodau o gyrrff allanol hefyd. Awgrymodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor am y digwyddiadau datblygu a briffio a gynhelir gan yr Awdurdod ac enwau'r Aelodau sy'n bresennol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Bithell at Atodiad 4 adroddiad IRPW am gyhoeddi taliadau cydnabyddiaeth – gofynion y Panel. Mewn sylw ynglŷn â pharagraff 1 (a), dywedodd na chyfeirir at ddarpariaethau Cynghorau Tref a Chymuned yn yr adroddiad. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd nad oedd y rheoliadau yn ymestyn i Gynghorau Tref a Chymuned. Mynegodd y Cynghorydd Bithell ei farn y dylai'r un rheolau fod yn berthnasol i Gynghorau Sir a Chynghorau Tref a Chymuned a chynigodd y dylai'r Pwyllgor dynnu sylw'r IRPW at y mater hwn. Eiliodd y Cynghorydd David Healey y cynnig.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y dylai'r Pwyllgor nodi Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru Ar Gynabyddiaeth Ariannol 202/21; a
- (b) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cael awdurdod i ymateb ar ran y Cyngor gan gynnwys cais i'w gwneud yn ofynnol i Gynghorau Tref a Chymuned gyhoeddi manylion eu taliadau eu hunain i Aelodau

06. CEFNOGAETH TG I AELODAU

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i ystyried y cynigion ar gyfer gwell darpariaeth TG i Aelodau. Darparodd wybodaeth gefndir ac

esboniodd nad oedd darpariaeth TG bresennol yr Awdurdod i'r Aelodau, yn seiliedig ar ddarparu ipads, yn ddigonol i ateb holl ofynion TG yr Aelodau er mwyn eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn cyfarfodydd o bell. I liniaru'r pryderon hyn ac i alluogi Aelodau sydd heb offer TG ar hyn o bryd, roedd yr Awdurdod wedi ymchwilio i ddarparu gliniaduron i Aelodau. Byddai'r gost yn cael ei gosod yn erbyn costau cynyddol argraffu a phostio agendâu. Byddai modd i Aelodau wrthod y ddarpariaeth hon.

Dywedodd y Prif Swyddog bod penderfyniadau 9 a 10 Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (IRPW) yn ymwneud â chymorth i Aelodau, gan gynnwys bod y Cyngor yn darparu i'w haelodau 'cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngwrwyd digonol i roi mynediad electronig at wybodaeth briodol', heb gost i'r aelod unigol. Am y rheswm hwn, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried cynnig 'lwfans band eang' o hyd at £30 y mis i Aelodau. Esboniodd y Prif Swyddog bod nifer o Aelodau, er bod ganddynt y ddarpariaeth band eang uchaf yn eu hardal, yn cael anawsterau cysylltu gan nad yw lled eu band eang yn ddigonol, ac i gydnabod hynny byddai dyfeisiau Mi-Fi yn cael eu darparu. Byddai cost y Mi-Fi yn cael ei osod yn erbyn lwfans band eang yr Aelod sef £30. Byddai modd i Aelodau unigol wrthod y cynigion os ydynt yn fodlon â'u darpariaeth bresennol.

Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd y Prif Swyddog i'r sylwadau a'r ymholiadau a godwyd gan Aelodau ynglŷn â materion technegol yn ymwneud â diogelwch, capasiti a chyfluniad, y gliniaduron newydd arfaethedig ac uwchraddio unrhyw offer TG personol a ddefnyddir gan Aelodau. Awgrymodd y Cynghorydd Mike Peers y dylid cynnal arolwg manwl i benderfynu pa offer TG sydd eu hangen ar unigolion mewn gwirionedd a pha mor addas yw'r offer personol a ddefnyddir gan yr holl Aelodau. Dywedodd y byddai hyn o bosibl yn lleihau costau'r Awdurdod os yw'n darparu offer nad oes eu hangen mewn gwirionedd. Esboniodd y Prif Swyddog, pe bai'r Pwyllgor yn penderfynu cytuno ag argymhellion yr adroddiad, y byddai swyddogion yn ymgynghori ag Aelodau ynglŷn â'r opsiynau sydd ar gael i sicrhau bod eu gofynion TG yn cael eu cyflawni a bod unrhyw broblemau yn cael eu datrys.

Cynigwyd yr argymhelliad canlynol gan y Cynghorydd Chris Bithell ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Ted Palmer.

- Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo darparu gliniadur gan y cyngor i bob Aelod sy'n gofyn am un.

Cynigodd y Cynghorydd Mike Peers bod yr argymhelliad yn cael ei newid i gynnwys gofyniad i gynnal arolwg manwl o Aelodau i benderfynu a oes angen iddynt ddefnyddio eu hoffer eu hunain a chytunodd y Pwyllgor â hynny.

Cynigwyd yr argymhelliad canlynol gan y Cynghorydd Chris Bithell ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Arnold Woolley.

- Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo cyflwyno lwfans band eang hyd at £30 y mis i bob Aelod o'r Cyngor sy'n gofyn amdano.

Cynigodd y Cynghorwyr Chris Bithell a Mike Peers bod yr argymhelliad yn cael ei newid i gynnwys cyfeiriad at argymhelliad IRPW. Cytunodd y Pwyllgor â hyn.

Cynigwyd yr argymhelliad canlynol gan y Cynghorydd Ted Palmer ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Jean Davies.

- Bod y Pwyllgor yn cydnabod bod rhwydd hynt i Aelodau wrthod y cynnig o liniadur neu lwfans band eang.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo darparu gliniadur gan y cyngor i bob Aelod sy'n gofyn am un ar ôl i arolwg gael ei gynnal i benderfynu beth yw gofynion yr Aelodau;
- (b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo cyflwyno lwfans band eang hyd at £30 y mis i bob Aelod o'r Cyngor sy'n gofyn amdano, yn unol ag argymhelliad Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn cydnabod bod rhwydd hynt i unrhyw Aelod wrthod y cynnig o liniadur neu lwfans Band Eang.

07. ADOLYGU PROTOCOL AELODAU / SWYDDOGION

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i ystyried y newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Safonau i'r Protocol Aelodau/Swyddogion fel rhan o'i adolygiad parhaus o'r Cyfansoddiad. Dywedodd bod y Cyngor hefyd wedi ymgymryd â gwaith ar ddiwedd 2019 / dechrau 2020 ar agweddau penodol o'r berthynas waith megis ymdrin ag achosion i Gynghorwyr a Safon Sir y Fflint ac roedd yn briodol newid y Protocol er mwyn ymgorffori'r gwaith hwn. Hefyd tybiwyd y byddai'n briodol diweddarau'r protocol er mwyn atgyfnerthu'r canllawiau ar berthnasod rhwng gweithwyr a Chynghorwyr yng ngoleuni'r Tribiwnlys Achos diweddar. Roedd y Protocol wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad ac yn dangos y newidiadau arfaethedig fel newidiadau wedi'u hamlygu (tracked changes).

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at y newidiadau arfaethedig i'r Protocol yn Atodiad A, a chododd nifer o gwestiynau ac awgrymiadau ynglŷn â pharagraffau 3.1 Rolau Aelodau a Swyddogion; 4.1(d) ymateb yn brydlon i ymholiadau a chwynion; 10.2 ymgysylltiad cynghorwyr Wardiau; 11.1 Mynediad Aelodau at wybodaeth a dogfennau'r cyngor; a 13.0 mynediad i safleoedd y Cyngor. Ymatebodd y Prif Swyddog i'r pwyntiau a godwyd a chytunodd y dylid newid y Protocol fel sy'n briodol.

Mynegodd y Cynghorydd Chris Bithell ei farn nad oedd y Protocol yn cyfeirio digon at gyfrifoldebau Aelodau i'w hetholwyr yn eu Wardiau unigol. Cyfeiriodd at baragraff 3.1 am Rolau Aelodau a Swyddogion a dywedodd bod Aelodau hefyd yn gyfrifol am gynrychioli'r etholaeth a chodi unrhyw faterion neu bryderon penodol sydd ganddynt. Cyfeiriodd y Cynghorydd Bithell hefyd at baragraff 4.0 (d) am ymateb yn brydlon i ymholiadau a chwynion ac roedd o'r farn nad oedd y terfynau amser yn y canllawiau ar gyfer ymdrin ag ymholiadau yn cael eu cyrraedd. Gwnaeth y Cynghorydd Bithell sylwadau pellach ynglŷn â'r berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion, y berthynas waith rhwng Aelodau a Swyddogion, a mynediad i safleoedd y Cyngor. Ymatebodd y Prif Swyddog i'r pryderon a godwyd a rhoddodd gyngor am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn. Cytunodd y dylid diwygio'r Protocol fel sy'n briodol mewn ymateb i awgrymiadau'r Cynghorydd Bithell ac ail-anfon y canllawiau a ddarparwyd i Aelodau am y broses o adrodd am ymholiadau a chwynion.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Arnold Woolley ac eiliwyd gan y Cynghorydd Rob Davies.

PENDERFYNWYD:

Bod y protocol diwygiedig yn cael ei gymeradwyo.

08. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.48 pm)

.....
Y Cadeirydd